

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

---

Lleoliad:  
Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd

---

Dyddiad:  
Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2011

---

Amser:  
09:30

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Virginia Hawkins  
Clerc y Pwyllgor  
029 2089 8544  
[ES.comm@wales.gov.uk](mailto:ES.comm@wales.gov.uk)

---

### Agenda

---

#### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

**2. Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru – tystiolaeth gan yr Arolygiaeth Gynllunio (09.30 – 10.10)** (Tudalennau 1 – 4)  
E&S(4)–09–11 papur 1

Peter Burley, Cyfarwyddwr Cymru

**3. Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru – tystiolaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (10.10 – 11.00)** (Tudalennau 5 – 9)  
E&S(4)–09–11 papur 2

Ceri Davies, Pennaeth Uned Strategol Cymru  
Anthony Wilkes, Cynghorydd Uned Strategol Cymru – Cynllunio

**4. Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru – tystiolaeth gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (11.05 – 11.55)** (Tudalennau 10 – 21)  
E&S(4)–09–11 papur 3

Morgan Parry, Cadeirydd  
Roger Thomas, Prif Weithredwr  
Dr Sarah Wood, Arweinydd y Tîm Cynllunio Gofodol, Ynni a Seilwaith Daearol

Egwyl 11.00 - 11.05

**5. Papurau i'w nodi** (Tudalennau 22 - 23)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd  
E&S(4)-08-11 cofnodion

**5a. Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy - gwybodaeth bellach yn dilyn y cyfarfod ar 19 Hydref** (Tudalennau 24 - 27)

E&S(4)-09-11 papur 4

**5b. Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru - ymateb gan Sector Ynni a'r Amgylchedd yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**

(Tudalennau 28 - 31)

E&S(4)-09-11 papur 5

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

E&S(4)-09-11 papur 1

### Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru - Tystiolaeth gan yr Arolygiaeth Gynllunio



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

#### TYSTIOLAETH YR AROLYGIAETH GYNLLUNIO I YMCHWILIAD PWYLLGOR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU I BOLISI A CHYNLLUNIO YNNI YNG NGHYMRU

19 Medi 2011

Rydym yn ddiolchgar i'r pwyllgor am ein gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w ymchwiliad. Isod, ceir cyflwyniad a chefnidir ffeithiol a phrif bwyntiau ein tystiolaeth.

#### Cyflwyniad a chefnidir ffeithiol

Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn Gyfarwyddiaeth o fewn yr Arolygiaeth Gynllunio, sef un o asiantaethau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr a Llywodraeth Cymru. Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi'i lleoli yn Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd. Mae'n ymdrin â phob apêl gynllunio sy'n cael ei chyflwyno i Weinidogion Cymru a cheisiadau sy'n cael eu galw i mewn. Hefyd, mae'n ymdrin ag ystod eang o apeliadau a gorchmynion a wneir dan ddeddfwriaeth arall, gan gynnwys apeliadau trwyddedau amgylcheddol, gorchmynion hawliau tramwy a cheisiadau ar gyfer gwaith ar dir comin.

Caiff y rhan fwyaf o achosion eu trosglwyddo i Arolygwyr sy'n gwneud y penderfyniad ar ran y Gweinidog. Fodd bynnag, yn achos ceisiadau sy'n cael eu galw i mewn dan A77 Deddf 1990, a nifer fach iawn o apeliadau sy'n cael eu hadfer, y Gweinidog sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar sail adroddiad a baratoir gan Arolygydd.

Eir i'r afael ag apeliadau dan 3 gweithdrefn wahanol, sef sylwadau ysgrifenedig (*Ile mae'r penderfyniad wedi'i seilio ar dystiolaeth ysgrifenedig ac ymweliad â'r safle*); gwrandawiadau (*sef proses anffurfiol lle gall partion fynegi eu barn ar lafar i Arolygydd*); ac ymchwiliadau (*Ile caiff y dystiolaeth ei phrofi'n ffurfiol dan groesholiad gan eiriolwyr*). O'r apeliadau cynllunio a dderbyniwyd yn 2010/11, aethpwyd i'r afael â 584 (79%) ohonynt trwy sylwadau ysgrifenedig,

123 (17%) ohonynt trwy wrandawiadau a 28 (4%) ohonynt trwy ymchwiliadau.

Cyn mis Ebrill 2010, cyflwynwyd cynigion ar gyfer seilwaith ynni mawr yng Nghymru, fel gorsafoedd generadu dros 50MW neu linellau pŵer uwchben, i'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd dan a36 neu a37 Deddf Trydan 1989 a benderfynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Aethpwyd i'r afael â chynigion datblygu ynni eraill y mae angen caniatâd cynllunio arnynt dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru naill ai os oeddent wedi'u galw i mewn gan Weinidogion Cymru neu os oedd yr awdurdod lleol wedi gwrthod rhoi caniatâd i'r ymgeisydd a'i fod wedi apelio i'r Gweinidog. Er mis Ebrill 2010, bu'n ofynnol i gyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau ynni yng Nghymru sy'n cynnwys gorsafoedd generadu, llinellau trydan uwchben y ddaear, cyfleusterau storio nwy dan y ddaear mewn strata mandyllog naturiol, neu biblinellau heblaw am biblinellau cludo nwy, sydd uwchben y trothwyon perthnasol y manylir arnynt yn Neddf Gynllunio 2008 (a15–21)<sup>1</sup>, i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) ar gyfer caniatâd.

Yn wahanol i Loegr, nid yw ceisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig a/neu ganiatâd ategol yng Nghymru o fewn cymalau'r IPC ac maent yn parhau i gael eu penderfynu fel o'r blaen. O ganlyniad, gallai'r Arolygiaeth fynd i'r afael ag unrhyw rai o'r cynigion hyn o hyd lle cânt eu galw i mewn gan Weinidogion neu os ydynt yn destun apêl.

Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu diddymu IPC, gan ymgorffori ei swyddogaethau yn yr Arolygiaeth Gynllunio trwy greu cyfarwyddiaeth seilwaith cenedlaethol newydd ar wahân o fewn yr Arolygiaeth Gynllunio. Bydd y gyfundrefn cynllunio seilwaith yn parhau heb ei newid i raddau helaeth, ond caiff y pŵer i benderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd datblygu ei drosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol. Daw'r newidiadau hyn i rym o fis Ebrill 2012, yn amodol ar ddeddfu'r Bil Lleoliaeth. Bydd y gyfarwyddiaeth seilwaith cenedlaethol ar wahân newydd, a fydd wedi'i lleoli ym Mryste, yn mynd i'r afael â phob cynnig ar gyfer y seilwaith cenedlaethol a gwmpesir gan Ddeddf 2008 yng Nghymru a Lloegr.

Bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn parhau i fynd i'r afael â'r holl waith achos y mae Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am wneud penderfyniad yn ei gylch.

Er bod rhaid penderfynu ar bob apêl/cais cynllunio ar ei deilyngdod ei hun, y man cychwyn ar gyfer unrhyw benderfyniad yw polisi'r Cynllun Datblygu, ar yr amod bod un wedi'i fabwysiadu a'i fod yn cynnwys polisiau sy'n berthnasol i'r cynnig. Mae adran 38(6) Deddf Cynllunio ac Iawndal 2004 yn mynnu bod y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn

---

<sup>1</sup> Y trothwy ar gyfer gorsafoedd generadu ynni, gan gynnwys ffermydd gwynt, yw unrhyw ddatblygiad sy'n fwy na 50MW ar y tir a 100MW alltraeth.

penderfynu ar yr apêl/cais yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi'n wahanol. Wrth gwrs, bydd ystyriaethau perthnasol eraill yn cynnwys polisi cenedlaethol, fel y gosodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, a'r Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol, gan gynnwys NCT8, a datganiadau polisi cynllunio interim y gweinidog (MIPPS). Gan fod Arolygwyr yn gweithredu ar ran y Gweinidog, fel arfer byddant yn ceisio gwneud eu penderfyniad yn unol â pholisiau cenedlaethol, oni bai bod ystyriaethau eraill o bwys sylweddol a fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth bolisiau cenedlaethol dan amgylchiadau penodol yr achos.

Mae NCT8 yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy bach cymunedol sy'n llai na 5MW, cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf cynllunio arferol. Mae'n awgrymu y dylid crynhoi cynlluniau mwy ar gyfer tyrbinau gwynt (dros 25MW) mewn 7 Ardal Chwilio Strategol (AChS). Fodd bynnag, mae hefyd yn awgrymu y gallai awdurdodau lleol ystyried cynigion ar dir y tu allan i AChSau ond yn gyfagos atynt, cyn belled â bod achos digon cadarn ac nad oes unrhyw gyfyngiadau cynllunio.

Yn 2009/10, aeth Arolygiaeth Gynllunio Cymru i'r afael ag 11 o apeliadau/ceisiadau yn ymwneud â datblygiadau ynni adnewyddadwy. Gyda'i gilydd, roedd y cynigion yn cynnwys 43 o dyrbinau gwynt, yn amrywio o un tyrbîn i 16 o dyrbinau. Y cynllun diwethaf yn Rhydaman oedd yr unig gynllun a alwyd i mewn i'w benderfynu gan y Gweinidog. O'r 11 o achosion, cymeradwywyd 7 ohonynt, gan roi caniatâd ar gyfer 24 o dyrbinau, gan gynnwys y cynllun yn Rhydaman. Cafodd y 5 apêl a oedd yn weddill, a oedd yn cynnwys 20 o dyrbinau, eu gwrthod.

O'r 3 achos a oedd yn cynnwys cynigion o fwy na 5MW, roedd un ohonynt o fewn AChS (*cynllun ar gyfer 13 o dyrbinau yng Ngorsedd Bran, Nantglyn*) ac roedd 2 ohonynt ar ymyl AChS (*roedd y rhain yn cynnwys cynllun ar gyfer 16 o dyrbinau yn Rhydaman a chynnig i ychwanegu 3 thyrbîn ychwanegol at fferm wynt bresennol o fewn AChS yng Nghastellnewydd Emlyn*). Er ei fod y tu mewn i AChS, cafodd y cynllun ar gyfer 13 o dyrbinau gwynt ei wrthod ar sail ei effaith ar olygfeydd pwysig a sŵn. I'r gwrthwyneb, cymeradwyodd y Gweinidog y cynllun ar gyfer 16 o dyrbinau ar ymyl AChS, gan ddod i'r casgliad nad oedd y niwed y byddai'n ei achosi yn gorbwyso'r cyfraniad y byddai'n cynllun yn ei wneud i ddarparu trydan o ffynonellau adnewyddadwy. Gwrthodwyd y cynllun ar gyfer 3 thyrbîn ychwanegol oherwydd ei effaith weledol.

Yn 2010/11, aeth Arolygiaeth Gynllunio Cymru i'r afael â 7 o apeliadau'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Roedd tair o'r rhain ar gyfer cynlluniau ynni gwynt a oedd yn cynnwys cyfanswm o 24 o dyrbinau, yn amrywio o un tyrbîn i gynllun ar gyfer 19 o dyrbinau ym Mynydd y Gwair, Abertawe. Yr apêl ar gyfer y tyrbîn unigol yn unig a gymeradwywyd, a gwrthodwyd y ddwy apêl arall a oedd yn cynnwys 23

o dyrbinau. Roedd y 4 apêl arall yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy yn ymwneud â ffatri ynni biomas neu dreulwyr anerobig. Caniatawyd tair o'r rhain a gwrthodwyd un ohonynt.

O'r ddau gynllun ar gyfer ffermydd gwynt a wrthodwyd, roedd yr un ar gyfer 19 o dyrbinau ym Mynydd y Gwair wedi'i leoli mewn AChS, ond nid oedd y cynllun arall ar gyfer 4 o dyrbinau ger y Blaenau, Blaenau Gwent. Cafodd y cynllun cyntaf, a adferwyd i'w benderfynu gan y Gweinidog, ei wrthod oherwydd ei effaith annerbyniol ar gynefin gorgors. Mae'r penderfyniad hwn yn destun her gyfreithiol ar hyn o bryd. Gwrthodwyd yr ail gynllun oherwydd ei effaith ar y dirwedd.

Ar hyn o bryd, mae gan yr Arolygiaeth 2 apêl arall yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy sy'n aros am benderfyniad. Bydd un ohonynt ar gyfer 7 o dyrbinau gwynt yng Nghilfach Goch yn cael ei chlywed mewn ymchwiliad ym mis Hydref. Mae'r llall ar gyfer ffatri biomas gwres a phŵer cyfunedig 25MW yn Nociâu Alexandra yng Nghasnewydd ar encil ar hyn o bryd, gan i'r Cyngor gymeradwyo cynllun tebyg mewn egwyddor, ond mae'n aros i lofnodi cytundeb dan Adran 106 Deddf Cynllunio 1990.

Peter Burley  
Cyfarwyddwr Cymru  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

t

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

E&S(4)-09-11 papur 2

### Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru – Tystiolaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Ymateb i ymchwiliad i pholisi ynni a chynllunio yng Nghymru

#### 1. Ein Swyddogaeth mewn Polisi Ynni a Chynllunio

Mae gennym ni ddwy swyddogaeth mewn polisi ynni a chynllunio:

##### **Fel Ymgynghorydd**

Fel ymgynghorydd i'r Llywodraeth, rydyn ni'n dylanwadu ac yn cyfrannu at ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio.

Rydyn ni hefyd yn ymgynghorai statudol ac anstatudol yn y system cynllunio gofodol. Rydyn ni'n cynnig cyngor amgylcheddol ar gynigion arwyddocaol, cenedlaethol ynghylch seilwaith, cynlluniau datblygu awdurdodau lleol a chynlluniau cynllunio ar gyfer safleoedd penodol.

Ein prif swyddogaeth yw sicrhau fod y corff sy'n penderfynu (fel arfer, yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith) yn deall goblygiadau amgylcheddol datblygiad arfaethedig gydol ei oes. Swyddogaeth y corff sy'n penderfynu yw cydbwysu'r costau a'r buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

##### **Rheoleiddiwr**

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio (gan gynnwys caniatáu)

- Gosodiadau diwydiannol, ynni, gwastraff ac amaethyddol
- Gollyngiadau i, ac echdyniadau o, ddŵr wyneb a dŵr daear
- Y defnydd o sylweddau ymbelydrol

Rydyn ni hefyd yn gweinyddu ac yn rheoleiddio System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd a Chynllun Effeithiolrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC).

Rydyn ni eisiau llwyddo i gael y canlyniadau gorau o'n swyddogaethau cynllunio a thrwyddedu a chefnogi datblygu cynaliadwy drwy gynnig cyngor clir, cyson a phrydlon i'r rhai sy'n penderfynu ar ran ein cwsmeriaid, yn fusnesau ac yn awdurdodau lleol.

Yn seiliedig ar ein profiad fel ymgynghorydd a rheoleiddiwr, rydyn ni o'r farn fod yna ddau beth a allai wellai'r system cynllunio:

- Cynllun Seilwaith Cenedlaethol – a fyddai'n sicrhau fod datblygiadau a seilwaith mawr yn cael eu cynllunio'n strategol ac

yn y manau gorau ar gyfer diwydiant, cymunedau a'r amgylchedd.

- Rhedeg y prosesau cynllunio a chaniatau ar wahân ond yr un pryd.

## **2. Cynllun Seilwaith Cenedlaethol**

Rydyn ni'n awgrymu y dylid rhoi rhagor o ystyried i osod seilwaith ynni yn y lleoedd iawn ar gyfer diwydiant, cymunedau a'r amgylchedd. Ond dyw'r system bresennol ddim bob amser yn cyflawni hyn.

Mae Cymru angen system a fydd yn caniatáu ystyried lleoliad ac effeithiau amgylcheddol ar raddfa Cymru gyfan h.y. system o benderfynu rhagweithiol a strategol i gael y lleoliad cywir. Er ein bod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ardaloedd chwilio strategol ar gyfer cynhyrchu trydan o wynt oddi ar y lan, does yna ddim, ar hyn o bryd, gynllun gofodol cyffredinol sy'n ystyried pob math o seilwaith, gan gynnwys ynni. Gadewir i'r farchnad, felly, ddewis lleoliadau. Gallai hyn arwain at golli cyfleoedd. Gellir gweld hyn pan fo lleoliad yn gwneud defnyddio gwres a thrydan cyfun yn anfforddiadwy neu'n amhosibl neu fod datblygiadau'n cael eu gosod mewn manau anaddas, er enghraifft lle mae perygl llifogydd.

### **Y manteision**

Gallai Cynllun Seilwaith Cenedlaethol helpu gwireddu polisïau Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau cynaliadwy a newid hinsawdd drwy sicrhau fod gan Gymru'r gymysgedd iawn o ynni. I'w helpu i gyrraedd hyn, byddai'n rhaid cael tystiolaeth amgylcheddol, megis drwy Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol Llywodraeth Cymru a chynlluniau a strategaethau eraill, megis y Cynlluniau Morol sy'n cael eu datblygu.

I fod o gymorth i fusnesau a diwydiant benderfynu lle i ddatblygu, dylai'r Cynllun Seilwaith Cenedlaethol nodi lle mae'r amgylchedd wedi cyrraedd, neu bron â chyrraedd, ei gallu amgylcheddol neu ei therfyn cyfreithiol o ran amddiffyn yr amgylchedd. Byddai nodi'r manau hyn yn helpu i arwain datblygiadau i leoliadau mwy addas yng Nghymru lle nad oes gymaint o gyfyngiadau. Byddai'n yn dangos yn glir i fusnesau a diwydiant pa fannau sy'n addas ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad a byddai, felly, yn rheoli disgwyliadau. Byddai hefyd yn rhoi syniad o'r problemau a fyddai'n debygol o godi mewn gwahanol fannau ac felly pa mor hir a faint fyddai'n ei gostio i gael y gwahanol ganiatadau angenrheidiol.

Dylai hefyd helpu manteisio ar y cyfleoedd a fyddai ar gael. Er enghraifft, drwy osod cyfleusterau gwastraff neu biomas lle gellid defnyddio'r ynni a fyddai, fel arall, yn cael ei wastraffu, er budd y gymuned leol (er enghraifft, gwres a thrydan cyfun).



Ni ddylai unrhyw un sector gael ei ffafrio na'i gosbi'n ormodol. Dylai'r Cynllun Seilwaith Cenedlaethol geisio nodi 'ardaloedd cadw draw'.  
Dylai:

- Nodi ardaloedd sy'n fwy addas ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad
- Cydnabod efallai na fyddai rhai ardaloedd yn addas ar gyfer rhai mathau o ddiwydiannau heb waith lliniaru helaeth ac, o bosibl, costus i warchod yr amgylchedd.
- Hyrwydd trafodaeth ynghylch pa fath o ddatblygiad a allai fod o'r budd mwyaf i wahanol ardaloedd.

**Dewis posibl:** Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynhyrchu Cynllun Seilwaith Cenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod ei Gynllun Seilwaith Cenedlaethol yn cael ei gynnwys fel ystyriaeth bennaf yn Natganiadau Polisi Cenedlaethol y DU. Byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid i benderfyniadau Comisiwn Cynllunio Seilwaith y DU dalu sylw llawn i'r Cynllun Seilwaith Cenedlaethol.

### **Beth ydym ni'n ei wneud?**

O'n safbwynt ni, mae goblygiadau amgylcheddol allweddol datblygiadau yn cael eu sylweddoli a'u hystyried yn rhy hwyr yn y broses o ddewis safleoedd. Gallai hyn arwain, neu roi'r, argraff fod yr amgylchedd yn rhwystr i ddatblygiadau oherwydd, unwaith y nodir y dewis a ddymunir, mae'n anodd troi'n ôl i liniaru'r effeithiau amgylcheddol.

Mae angen i ni felly, sicrhau fod busnesau a diwydiant yn talu sylw llawn i'r amgylchedd wrth ystyried datblygu Cynllun Rheoli Seilwaith. Fel y nodwyd eisoes, dylai hyn ddigwydd yn ddelfrydol pan fo datblygwyr yn **chwilio** am safleoedd. Gallai Cynllun Seilwaith Cenedlaethol wneud hyn yn haws, ond hebdo, gellid sicrhau ystyriaeth gynnar drwy weithio'n well gyda'r cyfundrefnau cynllunio a chaniatau presennol. I helpu'r broses, rydyn ni'n datblygu ar hyn o bryd gyfres o nodiadau canllawiau i sectorau penodol ar gyfer y gweithgareddau y byddwn ni'n eu caniatáu o dan Drwyddedu Amgylcheddol, i helpu ystyried ceisiadau cynllunio. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Moch a dofednod
- Gosodiadau llosgi
- Llosgi a chyd losgi gwastraff
- Tirlenwi
- Treulio anaerobig
- Compostio

Bydd y rhain yn dangos y ffactorau lleol allweddol a fydd yn dylanwadu ar:

- Sut y byddwn yn ymateb i ymgynghoriadau cynllunio (e.e. y rhesymau pam y gallwn wrthwynebu neu ffactorau y byddwn yn dymuno eu hystyried y tu hwnt i'r swyddogaeth cynllunio).
- Y tebygolrwydd o gael trwydded amgylcheddol (e.e. y rhesymau pam y gallem wrthod cais)
- Y tebygolrwydd y gallai fod angen mesurau ychwanegol ar gyfer amddiffyn yr amgylchedd er mwyn cael trwydded
- A fyddai angen rhai mesurau rheoli llygredd a allai effeithio ar gynllunio ac felly y dylid eu hystyried yr un pryd.
- Achosion pan fyddai gofynion trwyddedu'n gallu effeithio ar gynllunio
- Ystyriaethau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd arfaethedig ger gweithgareddau trwyddedig.
- Darparu gwybodaeth a chynghor

Rydyn ni o'r farn y byddai'r canllawiau o ddefnydd wrth baratoi'r Cynllun Seilwaith Cenedlaethol.

Yn absenoldeb Cynllun Seilwaith Cenedlaethol, rydym yn bwriadu defnyddio'r canllawiau uchod wrth ymateb i ymgynghoriadau cynllunio. Efallai y bydd yn rhaid gwneud hyn cyn derbyn cais am Drwydded Amgylcheddol. Bydd ein hymateb i ymgynghoriad cynllunio yn debygol o fod yn fwy cynhwysfawr os byddwn wedi cael yr wybodaeth amgylcheddol berthnasol sydd mewn cais am Drwydded Amgylcheddol. Byddai hyn yn rhoi'r dewis o redeg prosesau cynllunio a thrwyddedu arwahan, ond yr un pryd, ar gyfer rhai datblygiadau risg uchel neu gymhleth.

### **3. Rhedeg y Prosesau Cynllunio a Thrwyddedu yr un Pryd**

Yn ogystal â bod angen caniatâd cynllunio, mae'n bosibl y bydd seilwaith ynni newydd angen trwydded amgylcheddol gennym ni cyn y gall weithredu. Gall y datblygwr benderfynu ar amseru'r ceisiadau ar eu cyfer, ac fe allan nhw fod yn ddilynol neu'r un pryd.

Rydyn ni o'r farn y byddai i o fudd i ddatblygwyr sy'n ystyried gweithgareddau risg uchel a chymhleth ymgeisio am ganiatâd cynllunio a thrwydded amgylcheddol yr un pryd. Byddai hyn yn gwneud y broses benderfynu yn gliriach ac yn fwy tryloyw i'r rhai sy'n penderfynu ac i'r cyhoedd. I'r cyhoedd, byddai'n dangos yn glir beth all y ddwy broses eu hystyried.

O safbwynt datblygwr, byddai cynnal y ddwy broses yr un pryd yn gallu arwain at ymgynghori ar y cyd i gyfarfod gofynnon asesiad effeithiau amgylcheddol cynllunio ac ystyriaethau trwydded amgylcheddol. Byddai hynny'n lleihau costau a'r amser mae'n ei gymryd i gael y gwahanol drwyddedau.

**Dewis posibl:** Bod Llywodraeth Cymru'n ystyried disgrifio'r sefyllfaoedd hynny pan fydd yn rhaid i ddatblygwr gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio a thrwydded amgylcheddol yr un pryd.

**Dyddiad: 23 Medi 2011**



# Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

## YMCHWILIAD PWYLLGOR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU I BOLISI YNNI A CHYNLLUNIO YNG NGHYMRU

### TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG GAN GYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru. Mae ein tystiolaeth yn egluro ein rôl o safbwynt polisi ynni a chaniatáu datblygiadau o ran ynni yng Nghymru, ac mae'n canolbwyntio ar y materion strategol allweddol sy'n ymwneud â pholisi ynni yng Nghymru a'i berthynas â Pholisi Ynni Llywodraeth y DU, a eglurwyd yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad<sup>1</sup>.

#### 1. Crynodeb

- 1.1 Y Cyngor Cefn Gwlad yw cynghorwr statudol Llywodraeth Cymru ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru.
- 1.2 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn ffafrio ymgysylltu'n gynnar â datblygwyr er mwyn dod o hyd i atebion cadarnhaol i sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn ac er mwyn gweithio ar lefel prosiect i adnabod problemau amgylcheddol, eu lliniaru a'u datrys.
- 1.3 Mae ein cyngor yn canolbwyntio ar effaith datblygiad neu gynllun penodol ar fuddiannau y cydnabuwyd eu bod yn bwysig yng nghyswllt treftadaeth naturiol Cymru, er mwyn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.
- 1.4 Mae angen integreiddio anghenion o ran polisi ynni ag anghenion gweithgareddau eraill a ffyrdd eraill o ddefnyddio ein hamgylchedd naturiol, a'u hintegreiddio ar draws tir a moroedd Cymru ac o fewn y fframwaith polisi sy'n mynd i'r afael â'r buddiannau hynny.
- 1.5 Gallai datganoli mwy o bwerau ym maes ynni olygu bod modd symleiddio rhywfaint ar y trefniadau caniatáu, ond yn bwysicach na hynny gallai helpu i hybu proses well o integreiddio gwaith cynllunio'n strategol ar gyfer ynni, sy'n llwyddo'n fwy effeithiol i gydlynu'r broses o weithredu polisi ynni yng Nghymru.
- 1.6 Rhaid rhoi sylw i'r holl fuddiannau (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol), ni waeth a gaiff mwy o bwerau ym maes ynni eu datganoli ai peidio.
- 1.7 Ni waeth a gaiff mwy o bwerau eu datganoli i Gymru ai peidio, mae'n angenrheidiol cynnal cysylltiadau cryf â chynllunwyr a'r sawl sy'n llunio polisiau ar draws y DU er

<sup>1</sup> Llythyr gan Dafydd Elis-Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd (2 Awst 2011).

mwyn sicrhau bod goblygiadau cynigion sy'n croesi ffiniau a therfynau'n cael eu deall yn llawn a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hwy.

- 1.8 Mae'n hanfodol bod profiad, arfer gorau a gwybodaeth am effeithiau gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ynni'n cael eu rhannu ar draws y DU ac yn ehangach na hynny, er mwyn sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i benderfyniadau'n cael ei datblygu yn y modd mwyaf cynhwysfawr ac effeithlon posibl.
- 1.9 Bydd mabwysiadu'r dull o reoli'r amgylchedd, sy'n debygol o gael ei gyflwyno gan Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, yn haws i'w weithredu trwy un fframwaith polisi ar gyfer ynni yng Nghymru.
- 1.10 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cefnogi ac yn parhau i gefnogi'r egwyddorion sy'n sail i ddull gweithredu'n ymwneud â gwaith cynllunio strategol a gofodol ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy, fel y mynegir yn Nodyn Cyngor Technegol 8.
- 1.11 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad o'r farn bod cael fframwaith polisi a chynllunio clir yn hollbwysig er mwyn gallu cyflawni nodau o ran ynni'n effeithiol gan fynd i'r afael ar yr un pryd â gofynion angenrheidiol yr amgylchedd a buddiannau eraill.
- 1.12 Byddem yn croesawu fforwm neu fwrdd cyflawni ym maes ynni adnewyddadwy, a arweinir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn gweithio mewn modd adeiladol i hwyluso defnyddio ynni adnewyddadwy'n fwy effeithiol yng Nghymru.
- 1.13 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cefnogi Cynllun Seilwaith Cenedlaethol i Gymru sy'n sicrhau bod gwaith cynllunio a chaniatáu prosiectau ynni'n cael ei integreiddio'n well â'r seilwaith ategol angenrheidiol, gan sicrhau ar yr un pryd bod dyletswyddau a rhwymedigaethau amgylcheddol yn cael eu bodloni.

## **2. Cyflwyniad**

- 2.1 Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru.
- 2.2 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn hyrwyddo amgylchedd a thirweddau Cymru a dyfroedd ei glannau fel ffynonellau cyfoeth naturiol a diwylliannol, fel sail i weithgarwch economaidd a chymdeithasol, ac fel man ar gyfer cyfleoedd i hamddena a dysgu. Ein nod yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywyd pawb yng Nghymru.
- 2.3 Y Cyngor Cefn Gwlad yw cynghorwr statudol Llywodraeth Cymru ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru. Cafodd y Cyngor Cefn Gwlad ei greu gan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i ddarparu cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â chadwraeth natur, tirwedd a hamddena ledled Cymru ac yn ei dyfroedd.
- 2.4 Rydym yn gweithio mewn modd rhagweithiol i helpu i sicrhau bod ynni adnewyddadwy yn cael ei ddatblygu a bod nodau o ran ynni carbon isel yn cael eu cyraedd, gan sicrhau ar yr un pryd bod ein dyletswyddau, ein rhwymedigaethau a'n blaenoriaethau o ran gwarchod a gwella treftadaeth naturiol ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu bodloni o fewn cyd-destun cyffredinol datblygu cynaliadwy. Rhown flaenoriaeth uchel i waith ar lefel strategol gyda'r Llywodraeth, rheoleiddwyr a datblygwyr gan ddatgan yn glir beth

sy'n bwysig i ni a pham, rhannu gwybodaeth, tystiolaeth a'n profiadau, annog yr arfer o ystyried agweddau strategol a gofodol ar ddefnyddio ynni, datblygu gwaith ymchwil a gwella gweithdrefnau caniatáu. Mae'r asiantaethau statudol ym maes cadwraeth natur (y Cyngor Cefn Gwlad, Natural England, Scottish Natural Heritage, y Cydbwyllgor Gwarchod Natur ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon) hefyd yn cydweithio i sicrhau agwedd gydlynol at roi cyngor amgylcheddol ar draws y DU. Yng Nghymru mae gennym berthynas agos â chyrff eraill sydd yng Nghymru (gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol) yng nghyswllt materion sy'n ymwneud ag ynni.

2.5 Rydym yn aelod o nifer o fforymau ac mae gennym rôl ragweithiol mewn nifer o fforymau sy'n gweithredu ar lefel y DU i hwyluso defnyddio ynni adnewyddadwy er mwyn cyrraedd targedau polisi'r DU, naill ai ar lefel ofodol strategol neu wrth nodi problemau a rhwystrau adeg caniatáu prosiect. Prosesau anstatudol yw'r rhain, sy'n cynnwys fforymau caniatáu datblygiadau ar y tir ac ar y môr a gaiff eu harwain gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, Grŵp Trwyddedu Ynni Adnewyddadwy ar y Môr, a'r grŵp Materion Amgylcheddol Defnyddio Ynni Adnewyddadwy a gaiff ei arwain gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae'r grwpiau hyn hefyd yn ein galluogi i elwa o rannu'n ehangach unrhyw arfer gorau, gwersi a ddysgwyd ac ymchwil ym maes defnyddio ynni adnewyddadwy ar lefel y DU, Ewrop neu'r byd, sydd o fudd i Gymru.

2.6 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad hefyd yn ffafrio ymgysylltu'n gynnar â datblygwyr er mwyn dod o hyd i atebion cadarnhaol i sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn ac er mwyn gweithio ar lefel prosiect i adnabod problemau amgylcheddol, eu lliniaru a'u datrys. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi datblygu Datganiad Cyd-ddealltwriaeth â RenewableUK Cymru i nodi a chyflawni canlyniadau cyffredin a darparu fframweithiau ar gyfer cydweithio â'r sector ynni.

2.7 Ein nod yw darparu ein cyngor yn unol ag egwyddorion Hampton mewn modd rhesymol, cymesur, tryloyw ac amserol. Mae ein Hysbysiad Gweithdrefn Weithredol mewnol yn arwain ein staff i'n galluogi i weithredu'n gymesur ac ar sail risg. Mae gennym nifer o systemau mewnol sy'n cysylltu ein gwaith ar lefel strategol a lefel prosiect er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ac yn gydlynol.

2.8 Mae tystiolaeth y Cyngor Cefn Gwlad i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn pwysleisio'r themâu pwysig canlynol:

- Rhychwant polisi ynni a chymhlethdod trefniadau caniatáu.
- Pwysigrwydd cael fframwaith polisi'n sail i benderfyniadau am ddatblygu ynni.
- Yr angen am ddull strategol o gynllunio ac asesu gwaith datblygu ynni.
- Pwysigrwydd cael tystiolaeth dda yn sail i waith cynllunio a gwneud penderfyniadau.

2.9 Yn y gorffennol, mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi rhoi cyngor i ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Leihau Carbon a Chynhyrchu Ynni yng Nghymru yn 2008<sup>2</sup> a'r ymchwiliad i Gynllunio yng Nghymru<sup>3</sup>. Yn fwy diweddar rydym wedi cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad cyfredol yr Adran Ynni a

---

<sup>2</sup> Ymchwiliad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Leihau Allyriadau Carbon yng Nghymru: Energy Generation - Large Scale Renewable Energy Developments (13 Tachwedd 2008).

<sup>3</sup> Ymchwiliad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gynllunio yng Nghymru (Medi 2010).

Newid Hinsawdd i ddyfodol ynni adnewyddadwy o'r môr yn y DU<sup>4</sup>. Mae copïau o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor Cefn Gwlad ar gael o ofyn amdanynt.

## **Mater y bydd y Pwyllgor yn ei ystyried – Rôl y gwahanol asiantaethau caniatáu, sut y maent yn perthyn i'w gilydd, a sut y gellid gwella'r system bresennol, gyda datganoli pellach a hebdo.**

### *Diddordeb a rôl y Cyngor Cefn Gwlad ym maes ynni*

3.1 Yn rhinwedd ein rôl fel cynghorwyr statudol ynghylch effeithiau amgylcheddol, mae diddordeb y Cyngor Cefn Gwlad mewn ynni yn deillio o'r ffaith bod cynhyrchu ynni, ym mhob ffurf, yn arwain at effeithiau amgylcheddol. Mae cynhyrchu ynni o danwydd ffosil yn rhyddhau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill, gan gyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Mae asideiddio, ac yn gynyddol ewtroffeiddio, o ganlyniad i losgi tanwydd ffosil yn bryder mawr o hyd. Er nad yw ffynonellau ynni adnewyddadwy'n creu llygredd o'r fath, gallant arwain at effeithiau amgylcheddol eraill. Gall y rhain fod ar ffurf newidiadau i'r dirwedd a'r forwedd ac, yn dibynnu ar y dechnoleg a ddefnyddir, effeithiau ar gynefinoedd a rhywogaethau penodol.

3.2 Yn ei ddatganiad safbwynt ar Ynni a Threftadaeth Naturiol<sup>5</sup>, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn egluro'r angen am ddull gweithredu sydd wedi'i gynllunio'n strategol ac sy'n ceisio lleihau effeithiau amgylcheddol cyffredinol gwaith cynhyrchu ynni, trwy'r dulliau canlynol sydd wedi'u rhestru yn nhrefn eu pwysigrwydd:

- mesurau rheoli galw;
- effeithlonrwydd ynni;
- ehangu ynni adnewyddadwy trwy gael y dechnoleg iawn yn y lle iawn; a
- lleihau'r llygredd a achosir gan waith cynhyrchu tanwydd ffosil.

3.3 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad hefyd yn egluro'i gefnogaeth i fentrau sy'n cynyddu'r ynni a gynhyrchir o ffynonellau sy'n creu llai o garbon gan leihau'r effeithiau diangen ar dreftadaeth naturiol. Er mwyn bodloni'r rheidrwydd hwnnw, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cydnabod y bydd yn aml yn angenrheidiol ymgylfarwyddo â'r angen i dderbyn rhai effeithiau lleol ar ein treftadaeth naturiol yn y tymor byr er mwyn sicrhau bod allyriadau o waith cynhyrchu ynni'n lleihau, gan sicrhau ar yr un pryd bod gofynion cyfreithiol i warchod yr amgylchedd yn cael eu cynnal.

3.4 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol yng nghyd-destun cynhyrchu ynni, nod y Cyngor Cefn Gwlad yw darparu tystiolaeth glir, annibynnol a chyson wedi'i seilio ar dystiolaeth i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Awdurdodau Cynllunio Lleol, y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, datblygwyr ac eraill ynghylch effaith bosibl polisïau, cynlluniau a rhaglenni strategol a datblygiadau unigol ar dreftadaeth naturiol Cymru. Rydym yn ymgynghori statudol dan nifer o Ddeddfau a Rheoliadau mewn perthynas â gwaith achos, ac yn gorff ymgynghori ac yn awdurdod perthnasol mewn perthynas â phrosesau Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd. Caiff ein cyngor ei ddarparu ar lefel (strategol) prosiect a chynllun/rhaglen dan y trefniadau hyn, ac mae'n canolbwyntio ar **effaith** datblygiad neu gynllun penodol ar

---

<sup>4</sup> Ymchwiliad y Pwyllgor Ynni a Newid Hinsawdd: The Future of Marine Renewables in the UK (8 Medi 2011).

<sup>5</sup> Ynni a Threftadaeth Naturiol, Datganiad Safbwynt Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008




fuddiannau y cydnabuwyd eu bod yn bwysig yng nghyswllt treftadaeth naturiol Cymru. Ein nod yw sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau wedi'i seilio ar y dystiolaeth a'r cyngor gorau sydd ar gael ynghylch effaith cynigion neu gynlluniau ar dreftadaeth naturiol.

3.5 Mae problemau amgylcheddol amlwg yn perthyn i bob datblygiad o ran ynni, ond mae angen rhoi'r rhain yn eu cyd-destun. Weithiau, tybir mai treftadaeth naturiol yw'r prif beth sy'n cyfyngu ar ddefnyddio seilwaith ynni, yn enwedig ffermydd gwynt ar y tir. O'n profiad ni, nid treftadaeth naturiol yw'r unig reswm sy'n egluro pam y mae datblygiadau'n cymryd cyhyd i symud o'r syniad gwreiddiol i'r cam lle rhoddir caniatâd, neu pam y maent yn methu â chael caniatâd datblygu. Mae'r rhesymau eraill yn cynnwys penderfyniadau strategol a wneir i dynnu'r prosiect yn ôl a chanolbwyntio ar leoliadau neu dechnolegau eraill, problemau o ran trafndiaeth a phrifyrdd, diffyg cyllid neu broblemau â rhanddeiliaid.

#### 4 Cwestiwn y pwyllgor – Beth yw'r goblygiadau i Gymru os bydd y cyfrifoldeb dros ganiatáu prosiectau seilwaith mawr ar y tir ac ar y môr yn parhau i fod yn fater sy'n cael ei gadw yn ôl gan Lywodraeth y DU?

4.1 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn ymwneud â chryn dipyn o waith sy'n gysylltiedig ag ynni, ac mae'r gwaith hwnnw'n amrywio o sectorau sydd wedi sefydlu a gaiff eu defnyddio ar raddfa fawr i dechnolegau arloesol ar raddfa lai sy'n arbrofol. Mae hynny'n cynnwys datblygiadau'n ymwneud ag ynni ar y tir ac ar y môr, a'u seilwaith cysylltiedig.

4.2 Gan amlaf bydd angen sawl caniatâd ar ddatblygiadau o ran ynni, ac mewn rhai achosion efallai y bydd modd cael caniatâd trwy ddilyn sawl llwybr gwahanol. Er enghraifft, gallai fferm wynt dros 100MW ar y môr mewn dyfroedd tiriogaethol gael ei chaniatáu gan Weinidogion Cymru dan Ddeddf Trafndiaeth a Gweithfeydd 1992 neu gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, yn dibynnu ar y llwybr caniatáu a ddewisir gan yr ymgeisydd<sup>6</sup> (gweler Ffigur 1).



**Ffigur 1: Caniatáu datblygiadau o ran ynni yng Nghymru.**

<sup>6</sup> Overarching National Policy Statement for Energy (EN-1) a National Policy Statement for Renewable Energy Infrastructure (EN-3) Gorffennaf 2011.



- 4.3 Felly, mae'r trefniadau caniatáu ar gyfer ynni yn gymhleth, a cheir gwahanol gyfundrefnau cyfreithiol ar gyfer pob sector ynni ac ystod o ofynion cyfreithiol i reoli effeithiau datblygiad ar yr amgylchedd a buddiannau eraill. Mae rhai agweddau ar waith caniatáu (ee yr amgylchedd a chynllunio gwlad a thref ar gyfer ynni a seilwaith cysylltiedig) wedi'u datganoli, ac mae eraill (ee y rhan fwyaf o ganiatadau datblygu ar gyfer prosiectau mawr) heb eu datganoli. Ceir nifer o gynghorwyr ac awdurdodau caniatáu (yng Nghymru a'r DU) sy'n ymwneud â chaniatáu prosiectau ynni a seilwaith cysylltiedig yng Nghymru, y mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn ymgysylltu â nhw ac yn rhoi cyngor iddynt.
- 4.4 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae o ran helpu i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei wella a'i ddiogelu, gan gefnogi amcanion economaidd a chymdeithasol ar yr un pryd. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad o'r farn ei bod yn hollbwysig cael cyfundrefn reoleiddio gadarn er mwyn sicrhau bod ynni'n cael ei ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Mae angen i'r rhyngweithio rhwng cynllunwyr, rheoleiddwyr a chynghorwyr fod yn effeithiol, ac **mae angen rhoi sylw i'r holl fuddiannau (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol), ni waeth a gaiff mwy o bwerau eu datganoli ym maes ynni ai peidio**. Gallai datganoli mwy o bwerau ym maes ynni olygu bod modd symleiddio rhywfaint ar drefniadau caniatáu, ond yn bwysicach na hynny gallai helpu i hybu proses well o integreiddio gwaith cynllunio'n strategol ar gyfer ynni, sy'n llwyddo'n fwy effeithiol i gydlynu'r broses o weithredu polisi ynni a seilwaith cysylltiedig yng Nghymru (gweler adran 5). Byddai llwyddiant hynny'n dibynnu'n fawr ar gael digon o adnoddau.
- 4.5 Gall datblygu ynni arwain at oblygiadau trawsffiniol sylweddol hefyd, yn enwedig yn yr amgylchedd morol. Yn aml, wrth wneud penderfyniadau am brosiectau unigol a chynllunio ar gyfer ynni ar lefel strategol, bydd angen rhyngweithio'n helaeth â chynllunwyr a rheoleiddwyr mewn rhannau eraill o'r DU, ni waeth a gaiff mwy o bwerau eu datganoli ym maes ynni ai peidio.
- 4.6 Byddai cydlynu fframweithiau cyflawni a pholisi i raddau mwy helaeth ar lefel Cymru yn helpu i dynnu rheoleiddwyr, cynghorwyr, datblygwyr a llunwyr polisiâu ynghyd, ac yn sicrhau dull cydlynol o gyflawni targedau ynni ar draws tir a moroedd Cymru trwy integreiddio gwaith cynllunio'n ymwneud â'r tir a'r môr. **Byddem yn croesawu fforwm neu fwrdd cyflawni ym maes ynni adnewyddadwy, a arweinir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn gweithio mewn modd adeiladol i hwyluso defnyddio ynni adnewyddadwy'n fwy effeithiol yng Nghymru**. Teimlwn y byddai hynny'n creu dull 'Tîm Cymru' o hwyluso defnyddio ynni ac yn golygu bod pawb yn rhannu dealltwriaeth o bolisi, deddfwriaeth a phroses gan fynd i'r afael â phroblemau allweddol a hwyluso gwaith cyflawni targedau polisi gyda'n gilydd.
- 4.7 Byddai'r Cyngor Cefn Gwlad hefyd yn gefnogi Cynllun Seilwaith Cenedlaethol i Gymru sy'n sicrhau bod gwaith cynllunio a chaniatáu prosiectau ynni'n cael ei integreiddio'n well â'r seilwaith ategol angenrheidiol megis trafnidiaeth a gwaith cysylltu â'r grid, gan sicrhau ar yr un pryd bod dyletswyddau a rhwymedigaethau amgylcheddol yn cael eu bodloni.

**5 Cwestiwn y pwyllgor - Sut y mae hyn (y ffaith bod cyfrifoldeb dros ganiatáu prosiectau seilwaith mawr yn parhau i fod yn fater sy'n cael ei gadw yn ôl gan Lywodraeth y DU) yn effeithio ar gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel, fel y'u nodir yn y Datganiad Polisi Ynni?**

**5.1 Gallai datganoli mwy o bwerau ym maes ynni i Gymru leihau cymhlethdod caniatáu datblygiadau o ran ynni, ond yn bwysicach na hynny efallai, gallai arwain at integreiddio polisi a gwaith cyflawni yn well, ond eto byddai llwyddiant hynny'n dibynnu ar gael digon o adnoddau.**

5.2 Mae cael gweinyddiaeth un Llywodraeth i ddatblygu polisi ynni yn golygu ei bod yn fwy posibl datblygu polisi cydlynol ac effeithiol. At hynny, bydd yn haws rheoli newidiadau i'r fframwaith polisi er mwyn addasu i amgylchiadau sy'n newid yng Nghymru yn y dyfodol os caiff y gwaith hwnnw ei oruchwylio gan un awdurdod polisi. Er enghraifft, bydd yn haws gweithredu'r angen i fabwysiadu'r dull o reoli'r amgylchedd, sy'n debygol o gael ei gyflwyno gan Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol<sup>7</sup>, trwy un fframwaith polisi ar gyfer ynni yng Nghymru yn hytrach na thrwy fframweithiau polisi a gaiff eu datblygu ar lefel y DU.

5.3 Nid yw'r Cyngor Cefn Gwlad mewn sefyllfa i roi cyngor ynghylch gallu'r sectorau ynni i greu capasiti i gynhyrchu ynni fel yr amlinellir yn Natganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru, 'Chwyldro Carbon Isel'. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Cefn Gwlad o'r farn bod cael fframwaith polisi a chynllunio clir yn hollbwysig er mwyn gallu cyflawni nodau o ran ynni'n effeithiol gan fynd i'r afael ar yr un pryd â gofynion angenrheidiol yr amgylchedd a buddiannau eraill. Yn ein barn ni, mae'r cynigion a amlinellir yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer bil datblygu cynaliadwy, bil cynllunio a bil yr amgylchedd, Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol sy'n dod i'r amlwg, a'r cynlluniau sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn cynnig cyfle i weithredu unrhyw newidiadau gofynnol i'r gyfundrefn bresennol.

5.4 Fodd bynnag, rhaid sylweddoli'n llawn faint o gapasiti ac arbenigedd y mae eu hangen i gyflawni swyddogaethau'n ymwneud ag ynni (o ran polisi, rheoli a gweinyddu). Wrth ddatblygu achos o blaid datganoli mwy o bwerau, bydd angen mynd ati'n ofalus i fesur yn llawn beth yw rhychwant y gwaith a gyflawnir ym maes ynni i gefnogi pob sector ynni (o ddatblygiadau bach ar y tir i ddatblygiadau'n ymwneud ag olew a nwy ar y môr) er mwyn deall yr holl oblygiadau i Lywodraeth Cymru pe bai'n cymryd cyfrifoldeb am y meysydd hyn. Rhaid cael digon o adnoddau i gefnogi unrhyw ddatganoli pellach, ar gyfer y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ond hefyd ar gyfer y rheini sy'n darparu'r cyngor, y dystiolaeth a'r gefnogaeth, er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer protocolau asesu amgylcheddol a phrosesau rheoleiddio eraill, i fodloni gofynion cyfreithiol a chefnogi datblygu cynaliadwy.

